

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 10fed Tachwedd, 2009, yn Y Neuadd Goffa,, Y Felinheli  
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 10th November, 2009 at The Memorial Hall , Y Felinheli

**Yn Bresennol/Present:** Sian Gwenllian (Cadeirydd)  
Ken Brown(Is-Gadeirydd)  
Lena Ashley; Iestyn Harris; Eluned Owen;  
Carolyn Pritchard; Gerald Roberts;  
George Smith; Daniel Williams.

**1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

The Chairman extended a welcome to all to the meeting.

**2) Ymddiheuriadau/Apologies:** Aled Job; Pat Jones;  
Meirion Roscoe

**3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest –** Dim / None

**4) Cofnodion/Minutes:**

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Hydref fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 13th October were confirmed as correct.

**5 & 6) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:**

- 1) Traffic a Parcio – Adroddwyd fod Pwyllgor Neuadd yr Eglwys wedi cytuno i'r egwyddor o drosglwyddo darn o dir tu ol i'r Neuadd ar gyfer creu maes parcio i'r pentref. Mae'r Pwyllgor yn awr yn disgwyl penderfyniad gan yr Eglwys yn ganolog ar y mater. Os daw cadarnhad fod hyn yn bosib, bydd angen trafod y mater ymhellach efo'r pwyllgor lleol cyn chwilio am grant i ariannu'r gwaith.
- 2) Trafodwyd cynllun gan Gyngor Gwynedd i newid y cyfyngiad amser ar ran o Stryd Bangor (y bae parcio o Maes Elim draw a heibio'r Felin Sgwrsio) i ddwy awr a dim cyfyngiad ar y penwythnos. Cytunwyd yn unfrydol y dylid bwrw mlaen efo hyn a gofynnwyd i'r Cadeirydd roi gwybod i'r Cyngor Sir. Roedd swyddog y Cyngor yn credu na fyddai'n briodol i newid y cyfyngiad ar y rhan o Stryd Bangor gyferbyn a Central Garage gan fod hwn yn nes at nifer o fusnesau lleol.

- 3) Arwyddion electronig: gan y byddai rhain yn costio £3,000 yr un, penderfynwyd i beidio bwrw mlaen efo'r syniad yma ar hyn o bryd.
- 4) Siwrne Saff: gofynwyd i'r Clerc anfon i ddiolch iddyn nhw am ymweld a'r pentref gan ofyn iddyn nhw ddod yn rheolaidd – i gadw llygad ar ddau ben y pentref – yn Aberpwl ac yn Ffordd Caernarfon ble mae gor-yrru ar ei waethaf.
- 5) Y Gornel ger Gardd Fon: adroddwyd fod Cyngor Gwynedd eisiau ymestyn y llinellau melyn rownd y tro er mwyn gwella diogelwch a gwelededd i gerddwyr a gyrrwyr. Trafodwyd map yn dangos y bwriad. Roedd y Cadeirydd wedi trafod y mater gyda perchnogion y ddau eiddo fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf ac nid oedd gwrthwynebiad ar y pryd. Mae un person ar Lan y Mor yn wrthwynebus gan y byddai llefydd parcio yn cael ei colli. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ddod a cynllun ger bron i ymestyn y pafin ger y toiled a fyddai'n creu rhwystr i draffig ar y ffordd. Tynnwyd sylw hefyd at gwyn am y casgenni cwrw sydd ar y pafin ger y Gardd Fon a chytunodd y Cyng. Daniel Willilams i drafod y mater gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio rhan o'r tir tu ol i'r toiledau cyhoeddus ar gyfer y pwrpas yma. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.
- 6) Prydlesu 3 medr o dir hen drac y Rheilffordd ger Ffordd Caernarfon ; gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r cyfreithiwr er mwyn bwrw mlaen gyda'r gwaith cyfreithiol.
- 7) Gweithdy Cychod : adroddwyd fod llythyr o gefnogaeth wedi ei anfon.

Felin Daclus :-

- 1) Gofynwyd a wirfoddolwyr i glirio darn o dir ger yr arosfan bws ger yr Eglwys gan fod llawer o sbwriel yno. Cytunwyd i wneud y gwaith ar Sul, Tachwedd 15. Mae'r Cadeirydd wedi anfon cais i'r Cyngor Sir yngofyn a fun newydd ger yr arosfan bws gan nad oes un yn y rhan yma o'r pentref.
- 2) Cerrig yr Afon : adroddwyd fod arian grant wedi ei glustnodi gan y Cyngor Sir i greu cynllun i wella ffensio, mynediad ac ati yn y goedwig ac ar y llwybr cyhoeddus.
- 3) Prosiect Bocsys Adar y Clwb Ieuenctid : dangoswyd y cynnyrch ac adroddwyd bod y cynllun yn datblygu'n dda.
- 4) Llwybr preifat rhwng Uwch Menai/Penceunant/Stryd Menai. Cafwyd cais am help i'w glirio. Cytunwyd y dylid ymweld a'r safle a chasglu enwau'r bobl sydd yn byw wrth ymyl a thrafod cais yn y cyfarfod nesaf.

Canolfan Iechyd Rowen : Adroddwyd fod y Bwrdd Iechyd Lleol bellach wedi cytuno ar y cynlluniau.

Tai Fforddiadwy : Adroddwyd fod cynllun wedi ei gyflwyno gan Snowdon Developments ar gyfer 32 o dai fforddiadwy (cymysgedd o 2,3 a 4 stafell wely) ar gyfer safle rhwng Y Wern a Tan y Maes ac ar ran o dir Tyddyn Perthi. Bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned astudio'r cynllun yn fanwl.

Gwaith yn y Pentref : Adroddwyd fod gwaith wedi bod yn cael ei wneud tu allan i dai Maes y Felin a Rhyd y Fenai ar gais y Cynghorydd Sir ac fod gwelliant amlwg i'w weld. Mae peth gwaith ar ol i'w wneud a bydd y Cynghorydd yn sicrhau fod hwn yn digwydd

#### Traffic and Parking –

- 1) Reported that the Church Hall Committee have agreed in principle to transfer a parcel of land at the rear of the Hall for the purpose of creating a car park for the village. The Committee are awaiting the decision of the Church on this matter. If confirmation is forthcoming, there is need to further discuss with the Local Committee before any attempt is made to seek financial assistance by way of grants.
- 2) A scheme by Gwynedd Council to change the parking restrictions on part of Bangor Street (the parking bay from Maes Elim to beyond Felin Sgwrsio) to two hours with no restrictions over the weekend, was discussed. The Officer of Gwynedd Council was of the opinion that it would not be appropriate to change the restriction on that part of Bangor Street opposite Central Garage as this was in close proximity to other local businesses.
- 3) Electronic Signs: these would cost £3,000 each and it was decided not to proceed on this matter at the present time.
- 4) Arrive Alive: The Clerk was asked to write to thank them for their presence in the village and also to ask if they could attend on a regular basis – to keep an eye on both sides of the village, Aberpwll and Caernarfon Road, where speeding is at its worse
- 5) Gardd Fon Corner: Reported that Gwynedd Council wanted to extend the yellow lines around the corner to improve safety and visibility for pedestrians and road users alike. A map was produced to show the intention. The Chairman has been discussion with the two property owners on whom it would have the greatest effect and there was no objection at the time. There is one objection from a resident on Beach Road on the basis that parking spaces would be reduced. It was decided to request Gwynedd Council to produce a plan to extend the pavement by the toilet so as to create an obstruction to traffic. Decided that the matter be left until the next meeting. Attention was also drawn to a complaint of beer casks on the pavement by Gardd Fon. Cllr Daniel Williams agreed to discuss the matter and at the same time discuss the possibility of using land behind the public toilets for this purpose.
- 6) Lease of 3 metres of the old railway line land near Caernarfon Road: the Clerk to write to the Council's Solicitor in order to proceed with the legal aspect.
- 7) Boat Shed: reported that a letter of support had been sent

#### FELIN DACLUS -

1. Volunteers were requested to clear rubbish from a parcel of land near the Church Bus Stop. Agreed that the work be undertaken on Sunday, 15th November. The Chairman has requested a new bin by the bus stop where previously there was none in that part of the village.
2. Cerrig yr Afon : reported that grant money had been earmarked by Gwynedd Council to create an improvement scheme to the fencing, and entrance to the woodland and public footpath.
3. Youth Club – Bird boxes project : one of the boxes was shown and it was reported that the scheme is progressing well.
4. Private footpath between Uwch Menai/Penceunant, Menai Street. A request for assistance to clear the path had been received. It was agreed to visit the site and collect the names of residents living close to and discuss the application at the next meeting.

Rowen Health Centre : Reported that the Local Health Board had approved the plans.

Affordable Housing : Reported that a planning application had been lodged by Snowdon Developments for 32 affordable houses (a mixture of 2,3 and 4 bedroomed houses) on a site between Y Wern and Tan y Maes and on part of Tyddyn Perthi land. There will be an opportunity for the Community Council to closely inspect the plans.

Work within the Village : Reported that work had been done outside the houses at Maes y Felin and Rhyd y Fenai at the request of the County Councillor and obvious improvement was to be seen. There is some work outstanding and the Councillor will ensure that this will be happening.

- 7) **Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd**  
Adroddwyd fod ymgynghori wedi bod yn digwydd gyda'r grwpiau defnyddwyr a fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu i ddangos y cynllun yn lleol. Adroddwyd fod angen £83,000 ar gael o gronfa Cynulliad cyn diwedd Mawrth 2010 a'r gweddill cyn diwedd blwyddyn ariannol 2011. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli ar ol y Cyngor Cymuned i fanylu ar y gwaith.

Cafwyd llythyr gan y gofalwr yn gofyn am adolygiad cyflog. Penderfynwyd cynnal cyfarfod o'r Is-Bwyllgor materion ariannol i drafod ymhellach. Gofynnwyd i'r Clerc edrych mewn i'r sefyllfa mewn ardaloedd eraill.

Dim materion cynnal a chadw.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE - reported that consultations have taken place with hall users' groups and a public meeting will be arranged to show the plans. Reported that £83,000 Assembly grant is available before the end of March

2010 and the remainder before the end of the 2011 financial year. A meeting of the Hall Management Committee was held following the Community Council meeting to detail the work.

A letter from the Caretaker requesting a review of salary was received. It was decided to arrange a meeting of the sub-committee dealing with financial matters to further discuss. In the meantime, the Clerk to enquire as to arrangements within other communities.

There were no matters of repair and maintenance to report.

**8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:**

Cadarnhawyd gwariant Mis Hydref.

Adroddwyd bod archwyliad cyfrifon wedi ei gwblhau a bod yr archwyliwr wedi datgan y cyfrifon yn lan. Mae Rhybudd Cyhoeddus wedi ei arddangos yn siop Londis ac yn y Felin Sgwrsio.

Penderfynwyd cyflwyno £200 fel rhodd, i brynu shed ar gais Cyfeillion yr Ysgol, i gadw offer chwarae. Roedd hyn yn dilyn cais ym mis Mai a ohiriwyd er mwyn Cyfeillion yr Ysgol gael cyflwyno manylion y cais.

Payments for the month of October were confirmed.

Reported that a full audit of the accounts had been concluded and that the auditor had reported a clean set of accounts. A Public Notice has been exhibited at Londis and at Y Felin Sgwrsio.

Decided that a sum of £200 be donated to Friends of the School, to purchase a shed to store playing equipment. This followed an application made in May that was deferred in order for Friends of the School to submit details of their application.

**9) Gohebiaeth/Correspondence:**

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.

Correspondence received during the month were noted

- Cyngor Gwynedd – 1) Llwyddo yng Ngwynedd / Succeeding in Gwynedd.  
Gwynedd Council 2) Polisi Gamblio Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council  
Gambling Policy

Un Llais Cymru - Adolygu Trefniadau Etholiadau Cyngor Gwynedd  
One Voice Wales - Review of Electoral Arrangement Gwynedd Council

**10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -**

Sul y Cofio – adroddwyd bod y trefniadau wedi bod yn llwyddiannus.

Remembrance Sunday – reported that the arrangements had been successful

**11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:**

Plot 3 (Hen Fodurdy Arfon,) Ffordd Caernarfon, Y Felinheli – Adeiladu Ty a  
Mynedfa Newydd – Dim Gwrthwynebiad.

Sylwad: Angen cadw 3 metr or hen rheilfordd ar gyfer trac beicio yn y dyfodol

Plot 3 (Old Arfon Garage) Caernarfon Road, Y Felinheli – Erection of a dwelling  
and access – No Objection.

Observation: Need to keep 3 metres of the old railway line for a future cycle  
track.

**12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee**

Dim i'w adrodd

Nothing to report.

**13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car  
Park/Lon Las Sub Committee**

Dim i'w adrodd

Nothing to report.

**14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau  
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee**

Llwybrau – Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Swyddog Adfywio lleol gan ofyn  
iddo drefnu cyfarfod o blith y cynghorau cymuned eraill sydd yn dymuno bwrw

mlaen gyda thaflen am eu llwybrau lleol. Teimlwyd mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen gyda'r prosiect.

Arolwg Llwybrau : gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i weld pa waith sydd ar y gweill yn sgil y problemau a nodwyd gan y Cyngor Cymuned yn ei Arolwg.

Footpaths – the Clerk was requested to contact the local Rural Development Officer to arrange a joint meeting with other community councils who wish to proceed with a pamphlet of their local footpaths. It was considered that collaboration was the best way forward with this project.

Footpaths Survey : the Clerk was to consult with Gwynedd Council to see what work has been organised in light of problems noted by the Community Council and related through the survey.

## **15) Adroddiad y Cyngorydd Sir/Report of County Councillor**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig;

- 1) Cyflwynwyd taflen i bob cyngorydd yn amlinellu'r sefyllfa ariannol difrifol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd a rhai o'r cynigion arbed arian sydd yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r cynghorwyr drafod gyda'i cyd-bentrefwyr a cyflwyno eu sylwadau i'r Cyngorydd Sir. Bydd penderfyniadau terfynnol yn digwydd yn Rhagfyr ac mae'r Cyngorydd yn awyddus i glywed y farn cyn hynny. Mae hi wedi cynnal dau gyfarfod efo'r Cylch Meithrin sydd yn bryderus am effaith un o'r toriadau ar y gwasanaeth mae nhw'n gynnig i blant bach.
- 2) Manylwyd ar gynllun sydd ar y gweill gan y Clwb Peldroed ar gyfer rhan o'r tir ger yn unedau diwydiannol ger yr Hen Orsaf (Penningtons). Mae nhw am greu cae chwarae aml-bwrpas yma ar gyfer y pentref gyda maes parcio a stafelloedd newid. Mae'n dibynnu ar gael arian grant. Mae'n golygu cael prydles ar y tir gan Cyngor Gwynedd. Byddai dal digon o le ar gyfer alotments ar y safle – yn y rhan agosach at Caernarfon.

Materion ychwanegol yr adroddwyd at lafar :

- 1) Adroddwyd fod y Cynghorwr wedi bod yn trafod gyda pherchnogion y Pinc Palas a'i fod wedi cytuno i symud yn hen gar a'r container brown sydd ger y Bont drosodd i'r Marina. Mae hefyd wedi cytuno i symud y kerbing sydd ar y llwybr cyhoeddus draw at y Fenai ger y barrier coch a gwyn fel bod cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad.
- 2) Adroddwyd fod cais wedi ei wneud am arwydd 'Dim Parcio' ar gyfer darn o dir ger mynedfa'r Lon Las ar waelod allt Penybryn gan fod car sy'n parcio yma yn rhwystro ambiwlansys a cherbydau mawr rhag mynd fyny'r ffordd.
- 3) Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn torri'r tyfiant ar waelod Brynffynnon (y ddwy ochr) yn dilyn cais gan y Cyngorydd.

- 4) Adroddwyd fod y Cynghorydd yn pwysu ar Gyngor Gwynedd i weithredu yn dilyn cwynion am swm yn 9 Ffordd Caernarfon.

A written report was produced:

- 1) A pamphlet was distributed to every councillor outlining the serious financial problems faced by Gwynedd Council and the cost cutting measures being discussed at the moment. Councillors were asked to discuss its contents with local residents and to convey their observations / concerns, to the County Councillor. Final decisions will be made in December and the Councillor is anxious to hear any comment before then. Two meetings have been held with the nursery school that are apprehensive of the effect that one measure will have on the service they are offering to young children.
- 2) Details were related of plans afoot by the Football Club to develop land near the industrial units near the Old Railway Station (Penningtons). They wish to develop a multi purpose sports area for the village incorporating a parking area and changing rooms. This is dependant on grant money being available. It also means securing a lease on the land from Gwynedd Council. There will still be sufficient room for allotments – on land nearer Caernarfon.

Further matters reported on verbally:

- 1) Reported that the Councillor had been in discussion with the owner of Pink Palace and that he had agreed to move the old car and the brown container by the bridge crossing to the Marina. He has also agreed to move the kerbing that is on the public footpath towards the Menai near the red and white barrier so that wheeled chairs are able to gain access.
- 2) Reported that an application had been made for a 'No Parking' sign on a piece of land near the entrance to Lon Las at the bottom of Penybryn hill as a car that parks there is preventing ambulances and large vehicles from going up the hill.
- 3) Reported that Gwynedd Council will be cutting the overgrowth at the bottom of Brynffynnon (on both sides) following a request from the Councillor.
- 4) Reported that the Councillor is leaning on Gwynedd Council to act following a complaint of noise from 9 Caernarfon Road.

**16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter**



Cyn diweddu'r cyfarfod, bu i'r Cynghorwyr sefyll am gyfnod o ddistawrwydd fel arwydd o barch er cof am y diweddar Eric Owen.

Before concluding the meeting, the Councillors stood in silence as a mark of respect in memory of the late Eric Owen

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.50 yh

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Rhagfyr 8fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.150.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 8<sup>th</sup> December, 2009